

18 Awst 2016

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Cydnerthedd ariannol awdurdodau lleol yng Nghymru 2015-16



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU





Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf  
Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys John Herniman,  
Nick Selwyn, Huw Rees a Janet Smith o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**  
**Swyddfa Archwilio Cymru**  
**24 Heol y Gadeirlan**  
**Caerdydd**  
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru), neu gweler y wefan [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru).

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2016

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

# Cynnwys

## Adroddiad cryno

	Crynodeb	6
	Argymhellion	8
1	<b>Mae prosesau cynllunio ariannol tymor canolig wedi cael eu cryfhau, ond nid yw cynlluniau wedi'u hintegreiddio'n llawn â strategaethau eraill ac mae ansawdd a chwmpas rhaglenni arbedion a newid yn gymysg</b>	<b>10</b>
	Nid yw cynlluniau ariannol tymor canolig wedi'u halinio'n dda â strategaethau allweddol eraill yn gyffredinol	13
	Mae ansawdd, cadernid a chyfoesedd cynlluniau ariannol tymor canolig yn gymysg	14
	Mae awdurdodau lleol yn parhau i fantoli eu cyllidebau ond nid oes gan y mwyafrif gynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda â champau priodol, ac maent yn cael trafferth yn cyflawni arbedion a fwriedir	15
2	<b>Mae trefniadau trin a rheoli ariannol yn gadarn ar y cyfan ond mae rheoli gwariant yn unol â'r gyllideb yn parhau i fod yn her i rai awdurdodau lleol</b>	<b>19</b>
	Mae adrodd ariannol wedi'i ddatblygu'n dda yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ond mae ansawdd a phrydlondeb adroddiadau'n dal i fod yn gymysg	22
	Er bod cyllid gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn parhau i leihau, mae cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn tyfu	23
	Ceir pwyslais cynyddol ar gynhyrchu incwm ond mae cynnydd yn dal i fod yn araf o ran datblygu ffrydiau ariannu newydd	25
	Mae capasiti mewn timau cyllid wedi gwella, ond mae maint yr her y mae awdurdodau lleol yn ei hwynebu yn gofyn am ddull mwy strategol ac arloesol i reoli cyllid yn y dyfodol	26

3	Mae trefniadau llywodraethu ariannol yn gadarn ar y cyfan, ond mae ymgysylltiad ag Aelodau a chraffu ar gynlluniau arbedion yn amrywio ac nid yw perfformiad yn cael ei herio'n gyson	27
	Mae ansawdd adroddiadau rheolaeth ariannol wedi gwella ond nid oes digon o fanylion mewn adroddiadau i aelodau ar arbedion unigol yn aml	30
	Nid yw'r trefniadau ar gyfer herio a chraffu ar berfformiad ariannol gan aelodau yn ddigon cadarn ledled Cymru	31
4	Er bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu systemau i gynnig trosolwg o berfformiad a gwariant, nid yw'r rhain yn rhoi sicrwydd priodol ynghylch cynaliadwyedd gwasanaethau bob amser	33
	Byddai sicrwydd tymor hwy wrth bennu cyllidebau awdurdodau lleol yn gwella cynllunio ariannol tymor canolig ac yn cynorthwyo gweddnewid lleol yn well	34
	Nid oes dealltwriaeth lawn o effaith lleihad mewn cyllid ar wasanaethau a dinasyddion oherwydd cyfyngiadau o ran y defnydd o ddata a phwyslais gwerthusiadau	35
	<b>Atodiadau</b>	
	Atodiad 1 – Dull yr astudiaeth	40

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

- 1 Ers 2010, mae llywodraeth y DU wedi lleihau gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yn rhan o'i chynllun i leihau'r diffyg. Yn dilyn toriadau i'w chyllideb, bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud dewisiadau anodd o ran sut i ddyrannu'r toriadau hynny i gyllid ar draws gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. O ganlyniad, mae cyfanswm y Cyllid Allanol Cyfun a wnaed ar gael gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol wedi lleihau bob blwyddyn. Hyd yn hyn, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi llwyddo i leihau gwariant a mantoli cyllidebau, ond mae maint y gostyngiadau blynyddol yn debygol o barhau. Mae llywodraeth leol yn derbyn cyfran helaeth ei chyllid refeniw cyffredinol trwy'r hyn a adnabyddir fel Cyllid Allanol Cyfun. Mae ein dadansoddiad yn dangos y bydd gostyngiad termau real o £761 miliwn (17 y cant) i'r Cyllid Allanol Cyfun rhwng 2010-11 a 2016-17<sup>1</sup>.
- 2 Mae'r gostyngiadau hyn wedi creu risgiau ac ansicrwydd ariannol i awdurdodau lleol ac mae'n rhaid i awdurdodau lleol barhau i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau y mae dinasyddion yng Nghymru yn dibynnu arnynt yn y cyd-destun anodd a newidiol hwn. Mae'r gwasanaethau hyn yn amrywio o ofal cymdeithasol i oedolion i gynnal priffyrdd i gasglu gwastraff ac addysgu pobl ifanc. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau dewisol yn unol â blaenoriaethau lleol. Mae sicrhau bod awdurdodau lleol yn parhau i fod yn sefydlog yn ariannol ac yn parhau i ddarparu eu gwasanaethau statudol i safon ddigonol yn dod yn anoddach, yn enwedig gan na all llawer o awdurdodau lleol ddangos effaith eu penderfyniadau cyllideb ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu ac nad oes ganddynt ddealltwriaeth dda o ba mor gynaliadwy yw eu gwasanaethau.
- 3 Er bod fframwaith ariannol cadarn ar waith sy'n effeithiol o ran atal awdurdodau rhag mynd yn fethdalwyr, mae'r effaith ar wasanaethau a achosir gan ostyngiadau i gyllid yn anoddach ei nodi. Mae trosolwg gan Lywodraeth Cymru yn ymddangos yn gadarn o ran atal methiant ariannol, ond mae'n wannach o ran amlygu maint pwysau ariannol mewn awdurdodau.
- 4 Mae ymdrin ag effaith y gostyngiadau hyn i gyllidebau yn gofyn felly i awdurdodau lleol newid yn sylweddol y ffordd y maent yn rheoli a llywodraethu eu cyllid. Mae trefniadau rheoli ariannol a oedd yn ddigon da ar un adeg yn annhebygol o fod yn addas i'r diben erbyn hyn er mwyn parhau i sicrhau canlyniadau ariannol cryf yn y dyfodol. Mae maint y gostyngiadau i gostau sy'n ofynnol hefyd yn golygu bod rhaid i awdurdodau lleol edrych y tu hwnt i arbedion byrdymor uniongyrchol a meddwl yn fwy radical am sut i leihau costau, a sut i gynnal hyn yn y tymor hwy gan barhau i gynnal neu wella gwasanaethau. Ar y llaw arall, mae technolegau newydd a'r 'economi gymdeithasol' sy'n dod i'r amlwg hefyd yn gwneud hwn yn gyfnod o arloesedd mawr posibl i lywodraeth leol.

<sup>1</sup> Mae cymharu Cyllid Allanol Cyfun ar draws y cyfnod 2010-11 i 2016-17 yn gymhleth am ddau brif reswm. Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori grantiau a ddarparwyd i Gyllid Allanol Cyfun ar wahân yn y gorffennol. Er bod y 'dadneilltuo' hwn o grantiau yn arwain at gynnydd i Gyllid Allanol Cyfun, nid yw'n gynnydd net i gyllid o reidrwydd. Tua £175 miliwn yw gwerth net grantiau a ymgorfforwyd i Gyllid Allanol Cyfun ers 2010-11 mewn termau real (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant). Hefyd, cymhlethir y darlun gan ddiddymiad budd-dal treth gyngor sydd wedi cael ei gynnwys yn y Cyllid Allanol Cyfun.

- 5 Mae effaith 'BREXIT' hefyd yn fygythiad i awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Yn y cyfnod yn union ar ôl y penderfyniad bu ymateb ar draws marchnadoedd ariannol a achosodd ansefydlogrwydd, er enghraifft, mewn prisiau cyfranddaliadau, cyfraddau cyfnewid arian cyfred, prisiau olew a chynnyrch bondiau, ac rydym yn parhau i wynebu llawer iawn o ansicrwydd a hynny yn ychwanegol at gwestiynau o bwys ynglŷn â dyfodol partneriaethau economaidd a masnachu y DU ag Ewrop. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi mynegi pryderon ynglŷn â goblygiadau canlyniad refferendwm yr UE, gan alw am 'newid syfrdanol ym mholisi cyhoeddus y DU'<sup>2</sup>, yn enwedig gan mai awdurdodau lleol yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru a'u bod yn darparu llawer o wasanaethau cyhoeddus pwysig.
- 6 Mae'n amhosibl dweud beth fydd effaith y materion hyn yn y wythnosau a'r misoedd sydd i ddod. Byddant yn sicr yn achosi rhagor o ansicrwydd parhaus i lawer o gyrff cyhoeddus, fel cronfeydd pensiwn, sydd yn agored iawn i'r marchnadoedd hyn. Hefyd, gan fod ansicrwydd o ran a fyddai Llywodraeth y DU yn ariannu prosiectau a oedd yn elwa ar Gronfeydd Strwythurol yr UE<sup>3</sup>, mae awdurdodau yn wynebu nifer o heriau mawr wrth reoli eu cyllid yn y dyfodol. Er gwaethaf yr ansicrwydd, byddai'n syniad da i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau ar gyfer gwerthuso a rheoli effaith bosibl ymadawiad y DU o'r UE ar eu sefyllfa oedd ariannol; a, phan fo hynny'n ymarferol, i weithredu unrhyw gamau i liniaru'r risgiau y maent yn eu nodi.
- 7 Yn yr adroddiad hwn, rydym yn ystyried perfformiad ariannol y 22 awdurdod lleol<sup>4</sup> yng Nghymru ac ansawdd eu trefniadau rheoli ariannol, er mwyn canfod lefel eu cydnerthedd o ran ymateb i'r heriau hyn. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar ein hadroddiadau cynharach ar gydnerthedd ariannol awdurdodau lleol<sup>5</sup> ac yn asesu cadernid trefniadau rheoli a chynllunio i gefnogi cydnerthedd ariannol ym mhob awdurdod, gan ganolbwyntio ar sut y maent yn cynllunio ac yna'n cyflawni eu hymrwymadau cyllideb. Roedd yr adolygiadau hyn yn cynnwys timau archwilio allanol yn gwneud gwaith maes ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ar drefniadau cynllunio ariannol pob awdurdod. Rydym yn sefydlu cam nesaf ein gwaith cydnerthedd ariannol ar hyn o bryd ac rydym yn bwriadu canolbwyntio ar nodi enghreifftiau o arferion da i gefnogi gwelliannau. Ein nod yw cefnogi'r rhain trwy weithgareddau arferion da a gynlluniwyd pan fydd yr adroddiad yn derfynol.
- 8 Cyfnod cynllunio ariannol 2015-16 a darpariaeth cynlluniau ariannol 2014-15 yw pwyslais yr adolygiad. Rydym hefyd wedi dadansoddi hanes perfformiad ariannol awdurdodau lleol yn 2013-14. Roedd tair prif elfen i'n gwaith.
- a cadernid systemau cynllunio ariannol awdurdodau lleol;
  - b effeithiolrwydd rheolaethau rheoli ariannol; a
  - c chryfder trefniadau llywodraethu ariannol.

2 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, **Pryder am effaith y refferendwm ar wasanaethau**, 24 Mehefin 2016.

3 Mae cronfeydd yr UE yn rhoi cymorth i fusnes, ymchwil ac arloesi, yn helpu pobl i gael gwaith, yn gwella sgiliau, rhwydweithiau digidol a thrafnidiaeth, yn adfywio ein cymunedau ac yn gwella ein hamgylchedd. Ers 2007, mae prosiectau'r UE wedi creu 11,925 o fentrau a 36,970 (gros) o swyddi, wedi helpu 72,700 o bobl i gael gwaith, wedi helpu 232,455 o bobl i ennill cymwysterau, ac wedi helpu 56,055 o bobl i gael addysg bellach. Llywodraeth Cymru, **Cronfeydd yr UE yng Nghymru**, 29 Mehefin 2016.

4 Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys parciau cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub na chynghorau trefn a chymuned.

5 Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru**, 2 Ebrill 2015

- 9 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad, ers ein hadolygiad diwethaf, bod **awdurdodau lleol yn gwella eu trefniadau cynllunio strategol ond yn cael anhawster yn datblygu a darparu'r arbedion a'r newidiadau i wasanaethau ar y cyflymder sy'n ofynnol i sicrhau cydnerthedd ariannol yn y dyfodol.**

## Argymhellion

- 10 Gwnaethpwyd nifer o argymhellion i awdurdodau lleol yn ein hadroddiad yn 2014-15. Mae llawer o'r argymhellion hyn yn dal i fod yn berthnasol ac mae angen i awdurdodau wneud rhagor o waith i roi sylw iddynt yn 2016-17. Hefyd, rydym wedi gwneud yr argymhellion canlynol yn seiliedig ar ein hadolygiad diweddaraf.

Argymhellion	
A1	Dylai awdurdodau lleol gryfhau eu trefniadau cynllunio ariannol trwy: <ul style="list-style-type: none"> <li>• ddatblygu cysylltiadau mwy eglur rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'u blaenoriaethau corfforaethol a'u cynlluniau gwasanaeth;</li> <li>• alinio strategaethau allweddol eraill fel cynlluniau rheoli gweithlu ac asedau gyda'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig;</li> <li>• datblygu cynlluniau arbedion amlflwydd cynhwysfawr wedi'u costio'n llawn sy'n sail i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn cwmpasu cyfnod y Cynllun, nid y gyllideb flynyddol nesaf yn unig;</li> <li>• categorio cynigion ar gyfer arbedion fel y gellir monitro'r newid o fathau traddodiadol o arbedion i arbedion gweddnewidiol dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig; a</li> <li>• sicrhau bod amserlenni ar gyfer cyflawni cynigion penodol ar gyfer arbedion yn realistig a bod atebolrwydd am eu bodloni wedi'i neilltuo'n briodol.</li> </ul>
A2	Dylai awdurdodau lleol ddatblygu Polisiâu Cynhyrchu Incwm a Chodi Tâl corfforaethol.
A3	Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd wrth gefn gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd werth gefn defnyddadwy a gasglwyd ac effaith a'r defnydd o'r rhain yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
A4	Dylai awdurdodau lleol ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol i fonitro'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
A5	Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cynlluniau arbedion yn ddigon manwl i sicrhau bod aelodau'n eglur am yr hyn y bwriedir i'r cynlluniau ei ddarparu ac y gellir craffu'n briodol ar ddarpariaeth y cynlluniau hynny trwy gydol y flwyddyn.
A6	Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod capasiti a gallu corfforaethol ar lefel sy'n gallu cefnogi darpariaeth cynlluniau arbedion yn effeithiol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar y cyflymder gofynnol.



11 Rydym hefyd wedi gwneud yr argymhelliad canlynol i Lywodraeth Cymru.

### Argymhellion

A7 Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi drefniadau cadarn ar waith i oruchwylio perfformiad ariannol a gwasanaethau ym mhob gwasanaeth cyngor er mwyn sicrhau y gall gyflawni ei chyfrifoldebau polisi yn effeithiol.

## Rhan 1

Mae prosesau cynllunio ariannol tymor canolig wedi cael eu cryfhau, ond nid yw cynlluniau wedi'u hintegreiddio'n llawn â strategaethau eraill ac mae ansawdd a chwmpas rhaglenni arbedion a newid yn gymysg



- 1.1 Rydym yn canolbwyntio yn adran hon yr adroddiad ar effeithiolrwydd trefniadau cynllunio ariannol strategol awdurdodau lleol. Daethpwyd i'r casgliad yn ein hadroddiad ym mis Ebrill 2015 bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dangos gweledigaeth eglur ac yn pennu amcanion corfforaethol cydlynol, ond bod angen iddynt sicrhau bod eu cynlluniau ariannol tymor canolig a'u cynlluniau gweithredol wedi'u halinio'n ddigonol i gyflawni eu hamcanion. Ar gyfer eleni, rydym wedi dod i'r casgliad bod prosesau cynllun ariannol tymor canolig wedi cael eu cryfhau ond nad yw cynlluniau wedi'u hintegreiddio'n llawn â strategaethau eraill a bod ansawdd a chwmpas rhaglenni arbedion a newid yn gymysg.
- 1.2 Mae cynllunio strategol cadarn yn hanfodol i gydnerthedd ariannol awdurdodau lleol yn y dyfodol. Mae ein dadansoddiad<sup>6</sup> a nodir yn [Arddangosyn 1](#) yn crynhoi pa mor dda y mae awdurdodau'n perfformio yn erbyn nodweddion allweddol cynllunio ariannol allweddol.
- 1.3 Nodwyd nifer o feysydd gennym lle mae angen gwella trefniadau cynllunio ariannol strategol. Yn benodol, dylai awdurdodau lleol sicrhau: bod eu fframwaith cynllunio yn gwneud cysylltiadau rhwng amcanion cynllun corfforaethol a gofynion cynllunio ariannol yn eglur; a bod eu cynlluniau ariannol yn nodi atebion eglur i'r heriau tymor canolig y mae'r awdurdod yn disgwyl eu hwynebu. Mae hefyd yn bwysig pwysleisio y bydd angen hyd yn oed i'r rhai yr ystyrir bod eu fframweithiau cynllunio presennol yn rhai risg isel neu ganolig barhau i esblygu er mwyn ymateb i heriau ariannol y dyfodol.

<sup>6</sup> Wrth gyflawni'r gwaith hwn, gwnaeth yr archwilywyr ddyfarniad risg ar gyfer pob awdurdod yn erbyn agweddau Cynllunio Ariannol, Rheoli Ariannol a Llywodraethu Ariannol. Mae ein dadansoddiad yn seiliedig ar yr asesiadau manwl a gynhaliwyd yn y 22 awdurdod lleol, ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2015-16. Er mwyn cynorthwyo i wneud hynny, defnyddiwyd cyfres o nodweddion risg isel a risg uchel i ddyfarnu pob agwedd i helpu archwilywyr i ddatblygu safbwynt 'pwysu a mesur' o risg gymharol.

Arddangosyn 1 – Nodweddion cynllunio ariannol effeithiol a'n gwerthusiad o berfformiad presennol

Canfyddiadau	Nodweddion
<p><b>Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau drefniadau sy'n adlewyrchu'r nodweddion hyn</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y gallu i gyflawni cyfrifoldebau statudol wrth ystyried ei gynlluniau ariannol byrdymor, tymor canolig a hirdymor</li> <li>• Mae tybiaethau ynghylch chwyddiant, lefelau incwm, demograffeg, galw am wasanaethau yn y dyfodol a chostau darparu gwasanaethau wedi'u modelu ac yn seiliedig ar ragfynegiadau rhesymol.</li> <li>• Yn gweithredu o fewn lefel o gronfeydd wrth gefn (gan gynnwys cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a balans y gronfa gyffredinol), wedi'u cymeradwyo gan aelodau, ac yn briodol i'r risgiau strategol, gweithredol ac ariannol y mae'n eu hwynebu.</li> <li>• Os nad ar y lefel darged ar gyfer cronfeydd wrth gefn, ceir camau a gynlluniwyd ar waith i gyflawni hyn, gan gymryd unrhyw risgiau cysylltiedig i'r sefyllfa ariannol a'r ddarpariaeth o flaenoriaethau i ystyriaeth.</li> <li>• Yn modelu sbardunau gwariant allweddol (er enghraifft, newidiadau poblogaeth a galw am wasanaethau), ffynonellau incwm (er enghraifft rhagolygon incwm a grantiau llywodraeth), canlyniadau refeniw gofynion cyfalaf ac adnoddau a'r defnydd o falansau.</li> </ul>
<p><b>Mae angen i nifer o awdurdodau wella eu trefniadau yn rhai o'r meysydd hyn</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hanes da o gyflawni cynlluniau arbedion.</li> <li>• Caiff y gyllideb ei phennu yng nghyd-destun strategaeth ariannol tymor hwy a Chynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cynnwys gorwel o dair i bum mlynedd.</li> <li>• Mae cynllunio ariannol tymor canolig a chyllidebu blynyddol yn adlewyrchu amcanion a blaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn, a thros y tymor hwy.</li> <li>• Yn deall ffynonellau incwm a risgiau sy'n deillio o'r rhain, ac wedi adolygu'r ymagwedd at ffioedd a thaliadau i sicrhau 'Gwerth am Arian'.</li> <li>• Yn defnyddio modelu ariannol i asesu'r effeithiau tebygol ar gynlluniau ariannol ac arbedion sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol senarios, ac i sicrhau nad yw atebion byrdymor yn cael eu mabwysiadu ar draul cynaliadwyedd hirdymor.</li> </ul>
<p><b>Mae gan lawer o awdurdodau wendidau yn y trefniadau hyn</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi nodi'n eglur yr arbedion y bwriedir eu gwneud dros dymor o dair i bum mlynedd. Mae'r cynllun arbedion wedi'i seilio ar waith costio manwl a chynlluniau cyflawni ar gyfer arbedion unigol (gan gynnwys arbedion gweddnewidiol/newid).</li> <li>• Mae prosesau cynllunio ariannol a chorfforaethol wedi'u hintegreiddio, yn gysylltiedig â threfniadau rheoli risg, ac yn ymgorffori cynllunio strategol ar gyfer adnoddau eraill gan gynnwys y rhaglen gyfalaf, rheoli asedau a chynllunio'r gweithlu.</li> </ul>

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Adroddiad Cydnerthedd Ariannol, Tachwedd 2015 i Ebrill 2016.

## Nid yw cynlluniau ariannol tymor canolig wedi'u halinio'n dda â strategaethau allweddol eraill yn gyffredinol

- 1.4 Dylai fframwaith cynllunio corfforaethol awdurdod lleol ategu datblygiad ei gynllun corfforaethol a'r holl gynlluniau strategol ategol eraill, gan gynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae angen i'r fframwaith fod yn gadarn er mwyn sicrhau bod y cynllun corfforaethol yn addas i'r diben. Heb fframwaith cydlynol a chadarn o'r fath, ceir perygl y bydd cynlluniau ategol yn cael eu datblygu mewn seilos, na fyddant yn cefnogi'r nodau strategol cyffredinol ac y gallent atal eu cyflawniad hyd yn oed.
- 1.5 Canfuwyd gennym fod gan gynlluniau corfforaethol pob awdurdod weledigaeth a nodau cyffredinol eglur a oedd wedi'u troi'n gyfres o amcanion gwella, ond nid yw amcanion y fframwaith cynllunio ariannol a'r cynllun corfforaethol wedi'u hintegreiddio'n llawn mewn lleiafrif o awdurdodau lleol. Er enghraifft, canfuwyd gennym fod mwy na hanner yr awdurdodau lleol wrthi'n adolygu eu cynlluniau corfforaethol a'u blaenoriaethau corfforaethol i ymateb i'r her o flaenoriaethu a symleiddio'r ddarpariaeth o wasanaethau yng nghyd-destun adnoddau sy'n lleihau.
- 1.6 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, nodwyd gan archwilwyr bod nifer yr awdurdodau lleol â threfniadau cynllunio ariannol addas neu well ar y cyfan wedi cynyddu o tua hanner yr awdurdodau lleol yn 2014-15 i ddwy ran o dair o awdurdodau lleol yn 2015-16. Mae hyn yn dynodi bod angen i un rhan o dair o awdurdodau lleol gryfhau eu trefniadau cynllunio o hyd. Oni bai fod trefniadau cynllunio'n cael eu cryfhau ac yn esblygu'n barhaus, bydd awdurdodau lleol yn ei chael yn anoddach ymdrin â phwysau ariannol yn y dyfodol.
- 1.7 Adolygwyd gennym ba mor effeithiol yr oedd awdurdodau lleol yn cysylltu eu hamcanion gwella corfforaethol â chynlluniau darparu gwasanaethau ac ariannol, ac a yw cyllidebau'n cael eu pennu'n unol â darpariaeth y weledigaeth, nodau ac amcanion gwella. Roedd y canfyddiadau'n gymysg.
  - a roedd wyth awdurdod lleol yn defnyddio dull cynllunio corfforaethol 'edau euraid' ac yn gallu dangos yn eglur sut y mae cyflawniad eu hamcanion corfforaethol wedi'i seilio ar gynlluniau gwasanaeth a'r strategaeth ariannol tymor canolig;
  - b roedd 11 awdurdod lleol yn gallu dangos cysylltiadau rhannol, a'r prif wendid oedd cysylltiadau â chynlluniau darparu gwasanaethau; ac
  - c ni allai tri awdurdod lleol ddangos sut yr oedd amcanion gwella wedi'u cysylltu â chynlluniau arbedion ariannol neu gynlluniau gwasanaeth.
- 1.8 Yn sgil hynny, mae nifer o awdurdodau lleol wedi mireinio a lleihau nifer y blaenoriaethau corfforaethol ac amcanion gwella ac yn alinio eu strategaethau ariannol tymor canolig i adlewyrchu hyn.

## Mae ansawdd, cadernid a chyfoesedd cynlluniau ariannol tymor canolig yn gymysg

- 1.9 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn elfen allweddol o fframwaith cynllunio corfforaethol effeithiol a dylai weithredu fel cysylltiad rhwng y strategaeth gorfforaethol a'r broses pennu cyllideb. Ystyriodd ein hadolygiad o Gynlluniau Ariannol Tymor Canolig awdurdodau amserlen y cynllun, rheolaeth risgiau ariannol, tybiaethau sylfaenol, dadansoddiad sensitifrwydd a chysylltiadau â strategaethau allweddol eraill. Ystyriwyd gennym hefyd a yw cyllidebau blynyddol awdurdodau'n llifo o strategaethau ariannol tymor hwy ac yn dylanwadu ar y rhain.
- 1.10 Canfuwyd gennym fod gan bob awdurdod lleol Gynllun Ariannol Tymor Canolig ond bod ansawdd, cyfoesedd a chadernid y cynlluniau'n gymysg. Er bod dwy ran o dair o awdurdodau lleol yn cysylltu cyllidebau â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn briodol, prin yw'r awdurdodau lleol sy'n cysylltu eu Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig yn benodol â strategaethau eraill fel strategaethau rheoli asedau a'r gweithlu, a cheir diffyg pwyslais 'adnoddau cyfan' ar gynllunio a darparu gwasanaethau.
- 1.11 Mae awdurdodau lleol â Chynlluniau Ariannol Tymor Canolig mwy cynhwysfawr yn eu hadolygu bob blwyddyn o leiaf, ac mae rhai awdurdodau yn cynnal adolygiadau canol tymor hefyd. Mae awdurdodau lleol â threfn cynllunio ariannol fwy soffistigedig yn cwmpasu cyfnod cynllunio pedair i bum mlynedd ac yn destun amrywiaeth o dybiaethau a dadansoddiadau sensitifrwydd i ddarogan y senarios cyllideb refeniw gorau a gwaethaf. Mae'r awdurdodau hyn hefyd yn ystyried y risgiau ariannol tebygol y maent yn eu hwynebu ac yn pennu lefelau cronfeydd wrth gefn o fewn cyd-destun polisi lleol penodol.
- 1.12 Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod gan un rhan o dair o awdurdodau Gynlluniau Ariannol Tymor Canolig nad ydynt wedi'u datblygu'n ddigonol o hyd. Mae'r prif wendidau'n cynnwys cysylltiadau cyfyngedig â strategaethau allweddol eraill, cynlluniau ddim yn cael eu diweddarau'n brydlon, diffyg dadansoddiadau risg a chynllunio senarios cyfyngedig yn arwain at ragolygon cyllideb rhy optimistaidd a chynlluniau arbedion heb eu datblygu'n ddigonol.
- 1.13 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi gwneud tybiaethau cynhwysfawr a rhesymol wrth ragweld y diffyg yn y gyllideb<sup>7</sup> ar gyfer 2015-16, wedi'u seilio ar ddata rhesymol o ran pwysau tâl, pwysau mwy cyffredinol o ran costau, lefelau incwm treth gyngor a gostyngiadau i'r grant cymorth refeniw. Fodd bynnag, gellid gwella'r data a ddefnyddir i fodelu a rhagamcanu effaith newid demograffig a galw cynyddol am wasanaethau mewn rhai awdurdodau lleol.
- 1.14 Gall defnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig fod yn ddefnyddiol i fesur cynnydd a chydnerthedd ariannol, yn enwedig ar gyfer materion pwysig fel hylifedd, enillion ar fuddsoddiadau a lefelau benthyg. Canfuwyd gennym yn ein hadolygiad yn 2014-15 nad oedd y defnydd o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ariannol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i fonitro a rheoli perfformiad wedi datblygu'n ddigonol. Canfuwyd gennym mai prin fu'r gwelliant yn hyn o beth yn 2015-16.

<sup>7</sup> Y diffyg yn y gyllideb yw'r swm y mae gwariant awdurdod lleol yn fwy nag incwm yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol unigol.

- 1.15 Canfu ein hadolygiad diweddaraf bod yr holl awdurdodau lleol yn adolygu a phennu dangosyddion darbodus yn flynyddol i fodloni gofynion rheoli trysorlys a gosod targedau ar gyfer y lefel y dylid cadw cronfeydd wrth gefn cyffredinol arni. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth bod unrhyw gymarebau ariannol allweddol eraill wedi cael eu hystyried na'u monitro yn rhan o waith monitro ariannol neu berfformiad mater o drefn.
- 1.16 Yn ystod 2015-16, mae un awdurdod wedi datblygu cipolwg ar berfformiad ariannol sy'n rhestru cymarebau ariannol blynyddol ar gyfer hylifedd, gerio a chyfalaf gweithio, a lefelau cronfeydd wrth gefn ac arbedion. Mae'n rhy gynnar i werthuso sut y caiff hyn ei ddefnyddio a'r effaith y gallai hyn ei chael ar y gwaith o herio a chraffu ar eu perfformiad ariannol yn y dyfodol.

### **Mae awdurdodau lleol yn parhau i fantoli eu cyllidebau ond nid oes gan y mwyafrif gynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda â champau priodol, ac maent yn cael trafferth yn cyflawni arbedion a fwriedir**

- 1.17 Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn defnyddio cymysgedd o gynigion arbedion cyllideb, incwm treth gyngor cynyddol a chynnydd i ffioedd a thaliadau i bennu cyllideb gytbwys. Fodd bynnag, roedd tua un rhan o dair o awdurdodau lleol yn bwriadu defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol neu wedi'u clustnodi i fodloni unrhyw ddiffyg sy'n weddill rhwng incwm a gwariant rhagweledig neu i ariannu gwariant nad yw'n ailadroddus. Mae rhai awdurdodau lleol wedi cynnwys y defnydd o gronfeydd gweddnewid wrth gefn wedi'u clustnodi i roi mwy o amser i wasanaethau ddatblygu cynlluniau arbedion a fydd yn arwain at fwy o arbedion yn y blynyddoedd i ddod.
- 1.18 Er bod y sefyllfa alldro cyllideb gyffredinol ar gyfer 2014-15 yn gadarnhaol ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, roedd gorwariant a thanwariant ar wasanaethau ar draws pob awdurdod lleol. Mae hyn yn cuddio pwysau cyllideb ailadroddus sylfaenol sy'n wynebu rhai gwasanaethau mewn rhai awdurdodau lleol, yn enwedig gwasanaethau a arweinir gan alw fel gofal cymdeithasol i oedolion a gwasanaethau i blant. Yn hanesyddol, mae awdurdodau lleol wedi tueddu i liniaru gorwariant mewn un maes gwasanaeth trwy danwario mewn meysydd gwasanaeth eraill. Mae methiant i roi sylw i broblemau cyllideb sylfaenol a'u datrys, ynghyd â'r angen i leihau cyllidebau yn rhoi'r awdurdodau lleol hynny sy'n dibynnu ar y dull hwn o liniaru mewn mwy o berygl ariannol yn y dyfodol.
- 1.19 Er bod gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol hanes da o ddarparu alldro cyllideb cadarnhaol yn gyffredinol, nid oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol hanes o gyflawni'r holl arbedion arfaethedig a nodwyd. Cyflawnodd pum awdurdod lleol yr holl arbedion a gynlluniwyd ar gyfer 2014-15 a nodwyd y rhan fwyaf o arbedion gan chwech ohonynt. Roedd gan un ar ddeg o awdurdodau lleol ddiffygion mwy sylweddol yn eu cynlluniau arbedion ar gyfer 2014-15.

- 1.20 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn adolygu eu cynlluniau arbedion ond mae trylwyredd a maint yr adolygiadau yn gymysg.
- a Mae rhai awdurdodau lleol yn llunio adroddiadau arbedion cynhwysfawr ac yn adolygu cynnydd yn rheolaidd yn erbyn cynigion penodol ar gyfer arbedion gan ddefnyddio statws Coch/Ambr/Gwyrdd neu rywbeth cyfatebol. Mae'r awdurdodau lleol hyn hefyd yn nodi camau lliniaru sy'n ofynnol i gyflawni arbedion a gynlluniwyd sy'n annhebygol o gael eu cyflawni ac ystyried cynlluniau wrth gefn.
  - b Nid yw rhai awdurdodau lleol yn adolygu cynigion unigol ar gyfer arbedion ac maent yn tueddu i ganolbwyntio ar y sefyllfa alldro cyllideb gyffredinol a chyfeirio at lwyddiant cynigion ar gyfer arbedion yn yr adroddiadau hyn.
  - c Mae rhai awdurdodau lleol yn adolygu cynnydd bob mis neu bob tri mis, eraill ar sail ad hoc neu ar ddiwedd y flwyddyn.
  - ch Mae rhai awdurdodau lleol wedi sefydlu bwrdd gweddnewid neu gyllideb penodol sy'n adolygu cynnydd cynlluniau arbedion. Mae hyn yn tueddu i ddigwydd yn yr awdurdodau lleol hynny sydd wedi adolygu a blaenoriaethu a datblygu rhaglenni penodol i ail-lunio gwasanaethau dros y tymor canolig i'r tymor hwy.
- 1.21 Canfu ein hadolygiad bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi sicrhau gwarged ar eu sefyllfa alldro a gyllidebwyd ar gyfer 2014-15. Mae hyn yn gynydd o 2013-14. Adroddodd pedwar ar bymtheg o awdurdodau lleol warged ar eu cyllideb refeniw ar gyfer 2014-15 o'u cymharu â 15 yn 2013-14. Adroddodd tri awdurdod lleol orwariant ar eu cyllideb ar gyfer 2014-15 o'u cymharu â saith yn 2013-14.
- 1.22 Nododd ein hadolygiad bod gwerth diffygion yn amrywio'n sylweddol ar draws awdurdodau lleol a bod 14 o awdurdodau lleol wedi dwyn arbedion a nodwyd ond na chyflawnwyd ymlaen o 2014-15 i 2015-16. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar awdurdodau lleol i gyflawni arbedion yn y blynyddoedd i ddod, a allai beryglu eu cydnerthedd ariannol. Mae awdurdodau lleol wedi tueddu i droi at wahanol arbedion i'r rhai a nodwyd yn wreiddiol i wneud iawn am unrhyw ddiffygion o ran arbedion yn ystod y flwyddyn. Mewn rhai achosion, gwnaed yn iawn am y diffygion o ran arbedion gan y defnydd o gyllid untro o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, cronfeydd wrth gefn a sefydlwyd yn benodol i fynd i'r afael â diffygion neu incwm heb ei gynllunio a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.
- 1.23 Mae defnyddio cyllid untro drwy'r dulliau hyn i ariannu cyllidebau sylfaenol ailadroddus yn anghynaliadwy yn y tymor canolig i'r tymor hwy. Mae'r diffygion o ran arbedion yn ymwneud yn bennaf â chynigion ar gyfer arbedion a thargedau sy'n gysylltiedig â rhaglenni gweddnewidiol a newid. Ar y llaw arall, mae rhai awdurdodau lleol wedi gallu nodi a chyflawni arbedion cyn yr adeg y mae eu hangen, gan eu rhoi mewn gwell sefyllfa i ddatblygu cynlluniau tymor canolig i dymor hwy i fodloni gofynion arbedion yn y blynyddoedd i ddod.



- 1.24 Roedd ein hadolygiad yn cynnwys dadansoddiad o hanes awdurdodau lleol dros y tair blynedd diwethaf o ran cyflawni arbedion arfaethedig a nodwyd heb fod angen nodi arbedion amgen neu arbedion yn eu lle. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi llwyddo i gyflawni eu cynlluniau arbedion fel y nodwyd, canfuwyd gennym fod tua hanner yr awdurdodau lleol yn dal i gael trafferth i gyflawni eu cynigion ar gyfer arbedion a nodwyd yn llawn.
- 1.25 Mae ein hadolygiad yn dynodi bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gallu cyflawni'r math mwy traddodiadol o arbedion yn llawn yn unol â'r amserlenni fel y bwriadwyd. Mae hyn oherwydd bod y mathau hyn o arbedion yn gynyddrannol fel rheol ac yn deillio o gyllidebau sylfaenol penodol pan gaiff y gyllideb ei phennu.
- 1.26 Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yn parhau i gael trafferth yn cyflawni arbedion o natur gweddnewidiol neu drawsbynciol a chydweithredol, neu'r rhai sy'n gofyn am newidiadau polisi. Y mathau hyn o arbedion yw'r rhan fwyaf o'r cynlluniau ar gyfer arbedion nad ydynt yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn. Mae rhesymau am fethu â'u cyflawni o ganlyniad i dargedau arbedion rhy uchelgeisiol yn bennaf, yn adlewyrchiad o amcangyfrifo gwael wrth osod targedau yn rhannol, ac amserlenni rhy uchelgeisiol ac afrealistig ar gyfer cyflawni arbedion pan gaiff y gyllideb flynyddol ei chytuno.
- 1.27 Canfuwyd gennym yn ein hadolygiad yn 2015-16 mai dim ond un o'r awdurdodau lleol oedd wedi nodi arbedion yn ymwneud â gweddnewid a rheoli newid a'u costio'n llawn pan bennwyd eu cyllidebau blynyddol. Mae hyn yn codi pryderon am allu rhai awdurdodau lleol i wneud y newid cam wrth gam sy'n ofynnol i gyflawni arbedion o'r maint angenrheidiol ac ar y cyflymder angenrheidiol i sicrhau cydnerthedd ariannol.
- 1.28 Ystyriwyd gennym yn ein hadolygiad blaenorol mai gwendidau mewn cynlluniau arbedion oedd yr her bwysicaf sy'n wynebu awdurdodau lleol yn ystod y blynyddoedd nesaf. Amlygodd ein hadroddiad hefyd, gan fod arbedion cymharol hawdd wedi eu gwneud eisoes, y byddai angen i awdurdodau lleol ddatblygu prosiectau gweddnewidiol mwy hirdymor i fynd i'r afael â'r pwysau sylweddol y maent yn eu hwynebu i'w cyllidebau.
- 1.29 Mae gan tua dwy ran o dair o awdurdodau lleol broses ffurfiol ar waith erbyn hyn ar gyfer olrhain cynnydd o ran arbedion ac ystyried risg a lliniaru wrth werthuso cynigion. Fodd bynnag, mae cadernid cynlluniau arbedion a chymau cynllunio yn dal i fod yn wan, o'i fesur yn erbyn egwyddorion CAMPUS, a dim ond hanner yr awdurdodau lleol oedd â chynlluniau arbedion CAMPUS ar waith ar gyfer 2015-16.

1.30 Fodd bynnag, dangosodd ein hadolygiad o gynlluniau arbedion 2015-16 y canlynol:

- a Pan bennwyd y gyllideb flynyddol, roedd cynlluniau arbedion y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cynnwys cymysgedd o gynlluniau wedi'u datblygu'n llawn, cynlluniau gweithredu ar y cam datblygu neu gynlluniau nad oeddent wedi'u datblygu eto. Ni wnaeth tua un o bob tri awdurdod lleol gynnwys disgrifiadau eglur o le y bydd arbedion yn cael eu gwneud nac yn cofnodi symiau penodol yn erbyn pob eitem.
- b Ni nododd nifer fach o awdurdodau lleol arbedion digonol i lenwi'r bwlch cyllideb ar gyfer 2015-16 wrth gytuno ar y gyllideb flynyddol ac maent wedi cynnwys y defnydd o gronfeydd wrth gefn cyffredinol yn rhan o'u strategaeth gyllideb.
- c Mae llai na hanner yr awdurdodau lleol yn debygol o gyflawni eu cynlluniau arbedion cymeradwy a gynlluniwyd yn llawn, sy'n golygu y bydd angen mesurau lliniaru i sicrhau cyllideb wedi'i mantoli.
- ch Mae gan lai na hanner yr awdurdodau lleol gynlluniau arbedion sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn â chynlluniau gwasanaeth a busnes.
- d Nid oedd gan tua hanner yr awdurdodau lleol amserlenni eglur ar gyfer cyflawni'r arbedion.

1.31 Canfuwyd gennym fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar nodi cynigion ar gyfer arbedion i fodloni gofyniad cynllun arbedion 2015-16. Roedd rhai awdurdodau lleol hefyd wedi nodi cynigion i roi sylw rhannol i'r bwlch cyllideb ar gyfer 2016-17 a thu hwnt. Mae ein hadolygiad o'r cynigion ar gyfer arbedion yn awgrymu bod y gyfran fwyaf o gynigion ar gyfer arbedion yn 2015-16 yn ymwneud â'r math mwy traddodiadol o arbedion, er enghraifft, ailneilltuo rhannau o gyllidebau yn unol â thargedau penodol, swyddi gwag, a gostyngiad i gyllidebau gweinyddol. Prin oedd yr awdurdodau lleol â chynigion o natur weddnewidiol wedi'u costio'n llawn ac wedi'u nodi ar wahân.

1.32 Mae nifer fach o awdurdodau lleol yn categoreiddio eu cynigion ar gyfer arbedion yn wahanol fathau, fel y gellir dangos y symudiad tuag at arbedion gweddnewidiol a rheoli newid o'r math mwy traddodiadol o arbedion dros amser.

## Rhan 2

Mae trefniadau trin a rheoli ariannol yn gadarn ar y cyfan ond mae rheoli gwariant yn unol â'r gyllideb yn parhau i fod yn her i rai awdurdodau lleol



- 2.1 Rydym yn canolbwyntio ar drefniadau trin a rheoli ariannol awdurdodau lleol yn adran hon yr adroddiad. Daethpwyd i'r casgliad yn ein hadroddiad ym mis Ebrill 2015 bod trefniadau trin a rheoli arian yn gadarn yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, er efallai fod angen iddynt wella'r broses o bennu a monitro cyllidebau a sicrhau bod digon o gapasiti a gallu yn y tîm cyllid i ymateb i heriau'r dyfodol. Ar gyfer eleni, rydym wedi dod i'r casgliad bod trefniadau trin a rheoli arian yn gadarn ar y cyfan ond bod rheoli gwariant yn unol â'r gyllideb yn parhau i fod yn her i rai awdurdodau lleol.
- 2.2 Mae **Arddangosyn 2** yn crynhoi pa mor dda y mae awdurdodau'n perfformio yn erbyn nodweddion allweddol trin a rheoli ariannol effeithiol ar hyn o bryd.
- 2.3 Daethpwyd i'r casgliad bod y fframwaith yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn addas ar gyfer anghenion presennol ar y cyfan. Mae trefniadau'n gadarn ar y cyfan ac mae risgiau'n gymharol isel. Dau faes lle mae angen cryfhau trefniadau yw rheoli gwariant yn unol â'r cyllidebau a bennwyd, a datblygu dulliau traws-gorfforaethol o gynhyrchu incwm.

Arddangosyn 2 – Nodweddion trefniadau trin a rheoli ariannol effeithiol a'n gwerthusiad o berfformiad presennol

Canfyddiadau	Nodweddion
<p>Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau drefniadau sy'n adlewyrchu'r nodweddion hyn</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisi rheoli cyllideb priodol ac effeithiol sy'n nodi swyddogaethau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn eglur. Mae'r cynllun dirprwyo'n eglur, ac mae prosesau wedi'u cyflwyno i reoli tanwariant a gorwariant o ran cyllidebau.</li> <li>• Mae targedau heriol ar gyfer casglu categorïau incwm ac ôl-ddyledion perthnasol yn cael eu pennu a'u monitro ac yn seiliedig ar broffil oedran y ddyled. Pan nad yw targedau'n cael eu cyrraedd, cymerir camau cywiro priodol yn ystod y flwyddyn i gyrraedd y targedau.</li> <li>• Ni chaiff lefelau sylweddol o ddyled eu dileu fel rhai na ellir eu casglu.</li> <li>• Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol yn cynnig adlewyrchiad cywir o amgylchedd rheoli'r awdurdod.</li> </ul>
<p>Mae angen i nifer o awdurdodau wella eu trefniadau yn rhai o'r meysydd hyn</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gwaith monitro a rhagweld ariannol yn addas i'r diben ac yn seiliedig ar groniadau, gan helpu i sicrhau cysylltiad eglur rhwng y gyllideb, rhagolygon yn ystod y flwyddyn a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn</li> <li>• Caiff tueddiadau perthnasol eu dadansoddi a'u hallosod ac ystyriar eu heffaith ar yr alldro terfynol rhagamcanol.</li> <li>• Cymerir camau prydlon i roi sylw i unrhyw bwysau ar y gyllideb, er enghraifft, camau cywiro i reoli amrywiadau anffafriol neu drwy ailystyried blaenoriaethau corfforaethol.</li> <li>• Caiff cymarebau ariannol allweddol eu monitro a'u meincnodi yn erbyn cyrff tebyg a chymerir camau fel sy'n briodol.</li> <li>• Ceir polisi eglur ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn. Ceir lefel ofynnol wedi'i chyfiawnhau'n eglur ar gyfer balans y cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Ceir rhesymeg eglur i esbonio trosglwyddiadau o neu rhwng cronfeydd wrth gefn. Mae protocolau eglur yn esbonio sut a phryd y dylid defnyddio pob cronfa wrth gefn. Mae penderfyniadau am gronfeydd wrth gefn wedi'u seilio ar asesiad cynhwysfawr o risg a pherfformiad presennol. Mae'r polisi cronfeydd wrth gefn wedi cael ei gytuno gan aelodau ac yn destun craffu.</li> </ul>
<p>Mae gan lawer o awdurdodau wendidau yn y trefniadau hyn</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hanes diweddar da o weithredu'n unol â'r gyllideb heb unrhyw orwario sylweddol.</li> <li>• Polisi eglur ar gynhyrchu incwm/codi tâl. Ceir cofrestr o ffioedd ar draws gwasanaethau er mwyn helpu i reoli ffioedd yn gyson. Canllawiau corfforaethol ar sut y dylid defnyddio consesiynau. Caiff ffioedd eu hadolygu'n rheolaidd a chaiff y polisi ei ddiweddarau.</li> </ul>

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Adroddiad Cydnerthedd Ariannol, Tachwedd 2015 i Ebrill 2016.

## Mae adrodd ariannol wedi'i ddatblygu'n dda yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ond mae ansawdd a phrydlondeb adroddiadau'n dal i fod yn gymysg


- 2.4 Canfuwyd gennym fod gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol bolisiâu a phrosesau pennu cyllidebau a monitro cyllidebau da ar waith. Ni nodwyd unrhyw wendidau sylfaenol gennym mewn fframweithiau rheolaeth ar gyfer rheoli ariannol ond nodwyd y gellid gwella prosesau a gweithdrefnau adrodd ar bennu cyllidebau a rhagolygon ariannol.
- 2.5 Nodwyd gennym fod nifer o awdurdodau lleol wedi gwneud gwelliannau i'w prosesau pennu cyllidebau ers ein hadolygiad yn 2014-15. Mae enghreifftiau o welliannau'n cynnwys ymgysylltiad cryfach yn y broses cynllunio ariannol trwy: gynnwys rheolwyr gwasanaethau ac aelodau mewn adolygiadau o gyllidebau sylfaenol a phennu targedau arbedion; darparu mwy o sesiynau ymwybyddiaeth i staff ac aelodau ar y materion ariannol allweddol sy'n wynebu'r awdurdod a newidiadau posibl i'r ddarpariaeth o wasanaethau; a chyfnodau ymgynghori hwy i ystyried cynigion ar gyfer arbedion.
- 2.6 Fodd bynnag, er bod rhai awdurdodau lleol yn cynnwys cyllidebau dangosol blynyddoedd i ddod mwy manwl yn eu hadroddiadau pennu cyllidebau, mae nifer o awdurdodau lleol yn dal i ganolbwyntio ar y gyllideb flynyddol yn bennaf. O ystyried bod awdurdodau lleol yn ystyried effaith llai o gyllid ar wasanaethau yn y tymor canolig i'r tymor hwy ac yn paratoi Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig, rydym o'r farn ei fod yn arfer da i bob awdurdod lleol baratoi cyllidebau dangosol ar gyfer blynyddoedd i ddod.
- 2.7 Er bod adrodd ariannol wedi'i ddatblygu'n dda yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae ansawdd a phrydlondeb adroddiadau sy'n cael eu llunio ar gyfer ystyriaeth swyddogion ac aelodau yn gymysg. Canfuwyd gennym fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn llunio adroddiadau monitro cyllidebau ac adroddiadau monitro arbedion bob mis i gael eu hystyried gan ddeiliaid cyllidebau ac uwch reolwyr. Fodd bynnag, mae fformat a chynnwys yr adroddiadau'n amrywio.
- 2.8 Mae rhagolygon ariannol wedi'u datblygu'n dda yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ac mae rhagolygon yn destun adolygiadau rheolaidd. Fodd bynnag, mae cadernid y rhagolygon yn amrywio. Mae pob awdurdod lleol yn llunio adroddiadau monitro cyllidebau sy'n cynnwys rhagamcanion ar gyfer alldro diwedd y flwyddyn. Canfuwyd achosion gennym o ragamcanion ariannol yn ystod y flwyddyn a oedd yn rhy besimistaidd neu'n rhy optimistaidd gan arwain at danwariant neu orwariant annisgwyl mawr yn cael eu rhagamcan yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar y broses o wneud penderfyniadau ariannol a chynllunio gwasanaethau ac ariannol yn arbennig.

## Er bod cyllid gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn parhau i leihau, mae cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn tyfu

- 2.9 Ar yr wyneb, mae tueddiad sy'n parhau o gynnydd i falansau wrth gefn cyfartalog awdurdodau lleol yn awgrymu ei fod yn un o'r meini prawf o gydnerthedd ariannol yng Nghymru sy'n perfformio orau. Fodd bynnag, er y tybiwyd at ddibenion y dadansoddiad hwn yr ystyrir bod lefelau uchel o gronfeydd wrth gefn yn adlewyrchu cydnerthedd ariannol cryf, mae hwn yn ddarlun mwy cymhleth a dyrys. Nid yw casglu cronfeydd wrth gefn heb unrhyw ddiben eglur yn ddefnydd effeithiol o adnoddau.
- 2.10 Balans gweithiol yw cronfeydd wrth gefn cyffredinol, i helpu i glustogi effaith llifoedd arian parod anghyson ac osgoi benthyg dros dro diangen a llunio cynllun wrth gefn i glustogi effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau. Ffordd o adeiladu cyllid i fodloni gofynion hysbys neu a ragwelir yw cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chânt eu cyfrifyddu ar wahân, er eu bod yn dal i fod yn rhan o'r gronfa gyffredinol yn gyfreithiol.
- 2.11 Ystyriodd ein hadolygiad pa mor ddarbodus y mae awdurdodau lleol yn rheoli eu cronfeydd wrth gefn ac a oes ganddynt strategaethau eglur ar gyfer creu a defnyddio cronfeydd wrth gefn wrth benderfynu ar eu Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig. Mae tua un o bob pedwar awdurdod lleol wedi mabwysiadu polisïau cronfeydd wrth gefn yn ffurfiol ers ein hadolygiad diwethaf.
- 2.12 Mae gan ddwy ran o dair o awdurdodau lleol brotocolau neu bolisïau ar waith ar gyfer rheoli cronfeydd wrth gefn sy'n cynnwys rhesymeg eglur ar gyfer sut a phryd y bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn adrodd yn dryloyw ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn ac fel rheol yn adolygu a diweddarau'r sefyllfa wrth bennu'r gyllideb flynyddol a chau'r cyfrifon blynyddol. Mae pob awdurdod lleol yn derbyn cyngor gan eu swyddogion Adran 151<sup>8</sup> ar y lefel o gronfeydd wrth gefn yr argymhellir y dylid ei chadw. Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnwys manylion am newidiadau yn eu cronfeydd wrth gefn yn eu datganiadau monitro cyllidebau ariannol rheolaidd.
- 2.13 Mae **Arddangosyn 3**, sy'n crynhoi ein dadansoddiad o gronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol a gymerwyd o'n hadolygiad o Gyfrifon Statudol unigol, yn dangos bod cronfeydd wrth gefn y mae awdurdodau lleol yn meddu arnynt wedi tyfu'n sylweddol yn ystod y saith blynedd diwethaf. Mae cronfeydd wrth gefn cyffredinol wedi cynyddu 28 y cant ers 2008-09 a Chronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd 50 y cant. Dynododd awdurdodau lleol yn adolygiad y llynedd eu bod yn disgwyl i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chyffredinol ostwng yn sylweddol yn 2013-14 ac yn y dyfodol. Fodd bynnag, cynyddodd lefel gyffredinol cronfeydd wrth gefn £64.2 miliwn yn 2013-14 o 2012-13, a bu rhyw fymryn o gynnydd rhwng 2013-14 a 2014-15, o £1.05 miliwn (gostyngodd cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd £7.7 miliwn tra cynyddodd y gronfa wrth gefn gyffredinol £8.75 miliwn).

8 Mae Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol ac yn ei gwneud yn ofynnol i un swyddog gael ei enwebu i gymryd cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Trysorydd yr awdurdod lleol yw'r swyddog Adran 151 fel rheol ac mae'n rhaid iddo fod yn gyfrifydd cymwysedig sy'n perthyn i un o'r cyrff cyfrifyddiaeth siartredig cydnabyddedig. Mae gan y swyddog Adran 151 nifer o ddyletswyddau statudol, gan gynnwys y ddyletswydd i hysbysu am unrhyw weithgarwch ariannol anghyfreithlon yn ymwneud â'r awdurdod (yn y gorffennol, y presennol neu arfaethedig) neu fethiant i bennu neu gadw at gyllideb gytbwys. Mae gan y swyddog Adran 151 nifer o bwerau statudol hefyd er mwyn caniatáu i'r swyddogaeth hon gael ei chyflawni, fel yr hawl i fynnu bod yr awdurdod lleol yn gwneud darpariaeth ariannol ddigonol ar gyfer cost archwiliad mewrol.

### Arddangosyn 3 – Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ac wedi'u Clustnodi Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2008-09 i 2014-15




Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Gyfrifon Statudol rhwng 2008-09 a 2014-15.

2.14 Mae **Arddangosyn 4** yn cymharu'r newid i gronfeydd wrth gefn cyffredinol ac wedi'u clustnodi a'r gostyngiadau i'r Cyllid Allanol Cyfun rhwng 2009-10 a 2014-15. Er y bu'n rhaid i awdurdodau lleol dderbyn ac ymdrin â thoriadau o £668 miliwn, mae hyn yn dangos eu bod hefyd wedi cynyddu cronfeydd wrth gefn £244 miliwn yn ystod y cyfnod hwn ac wedi cynnal cronfeydd wrth gefn o leiaf, er iddynt orfod lleihau cyllidebau'n sylweddol. Mae pa mor gynaliadwy y mae'r sefyllfa hon yn mynd i fod yn y dyfodol yn ansicr.



Arddangosyn 4 – Comparison of Local Authority General Fund and Earmarked Reserves with Aggregated External Finance from the Welsh Government between 2009-10 to 2014-15



Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Gyfrifon Statudol rhwng 2008-09 a 2014-15 a dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o newid termau real i gyllid cynghorau o linell sylfaen 2010-11.

## Ceir pwyslais cynyddol ar gynhyrchu incwm ond mae cynnydd yn dal i fod yn araf o ran datblygu ffrydiau ariannu newydd

2.15 Yn ein hadolygiad yn 2014-15, adroddwyd gennym fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cydnabod yr angen am bolisi pendant ar gynhyrchu incwm a chodi tâl, ond roedd y rhan fwyaf o awdurdodau yn dirprwyo penderfyniadau am ffioedd a thaliadau i dimau cyfarwyddiaeth a gwasanaethau unigol. Yn ein hadolygiad presennol, canfuwyd gennym fod gan chwe awdurdod lleol bolisiau cynhyrchu incwm a chodi tâl erbyn hyn. Mabwysiadwyd y rhan fwyaf o'r rhain yn 2015-16, felly mae'n rhy gynnar i asesu'r effaith y gallai'r rhain ei chael ar gynllunio ariannol tymor canolig.

2.16 Mae gan rai awdurdodau lleol, yn rhan o'u cynlluniau arbedion ariannol tymor canolig, brosiectau penodol ar waith i nodi cyfleoedd cynhyrchu incwm ac i archwilio ymarferoldeb codi ffioedd a thâl ar sail adennill costau llawn ar draws amrywiaeth o wasanaethau. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, trwy waith y Grŵp Effeithlonrwydd Adnoddau, yn bwrw ymlaen â gwaith i sicrhau arbedion o ran costau gweinyddol llywodraeth leol. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar gyfleoedd i gynorthwyo awdurdodau i nodi dulliau mwy masnachol ac arloesol o gynhyrchu incwm, a hefyd yn cynnwys nodi meysydd lle gallai Llywodraeth Cymru ystyried llacio cyfyngiadau rheoliadol i alluogi awdurdodau i gynyddu incwm.

2.17 Nid oes gan un o bob tri awdurdod lleol bolisi cynhyrchi incwm/codi tâl corfforaethol, ac mae penderfyniadau am ffioedd a thaliadau yn cael eu dirprwyo i wasanaethau. Nid yw hyn yn peri risg rheoli ariannol ond mae diffyg dull corfforaethol yn golygu y gellid methu cyfleoedd cynhyrchu incwm ar adeg pan ddylai awdurdodau lleol fod yn sicrhau cymaint o ffrydiau incwm â phosibl ac yn chwilio am rai newydd i ategu'r gyllideb refeniw.

## **Mae capasiti mewn timau cyllid wedi gwella, ond mae maint yr her y mae awdurdodau lleol yn ei hwynebu yn gofyn am ddull mwy strategol ac arloesol i reoli cyllid yn y dyfodol**

- 2.18 Yn ein hadolygiad yn 2014-15, roedd effeithiolrwydd rheolwyr cyllid o ran capasiti a gallu yn peri pryder ac nid oedd gan ychydig yn llai na hanner yr awdurdodau lleol niferoedd digonol o reolwyr cyllid. Roedd gennym bryderon penodol ynghylch y ffaith fod swyddi cyllid uwch allweddol yn wag neu wedi'u llenwi ar sail dros dro. Mae ein hadolygiad presennol yn dangos bod y sefyllfa hon wedi gwella ac nad oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol swyddi allweddol gwag. Mae pedwar ar ddeg o awdurdodau lleol o'r farn bod ganddynt ddigon o gapasiti a gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau, ond roedd wyth awdurdod lleol yn llai sicr.
- 2.19 Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn meddwl bod ganddynt ddigon o gapasiti a gallu i reoli eu cyfrifoldebau ariannol presennol o ddydd i ddydd, un thema gyffredin a godwyd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yw eu bod yn debygol o wynebu problemau capasiti yn y tymor canolig o ystyried y cymorth ariannol a gwasanaeth y bydd ei angen i gyflawni arbedion cyllideb ar y raddfa a'r cyflymder gofynnol.
- 2.20 Mae awdurdodau lleol hefyd yn cydnabod y bydd angen gwahanol setiau sgiliau cyllid er mwyn darparu rhai o'r cynlluniau arbedion mwy arloesol a gweddnewidiol yn effeithiol. Dywedodd rhai awdurdodau lleol wrthym eu bod eisoes yn cymryd camau i liniaru hyn naill ai trwy hyfforddi staff presennol yn y setiau sgiliau gofynnol neu gynllunio i ddefnyddio gwasanaethau arbenigol allanol i fynd i'r afael â bylchau sgiliau.
- 2.21 Canfuwyd gennym y gallai'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol gymryd sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd eu rheolaethau ariannol o'r gwaith a wnaed gan eu hadrannau archwilio mewnol. Canfuwyd gennym yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol bod argymhellion archwiliadau mewnol y cytunir arnynt yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon a bod gan adrannau archwilio mewnol broffil priodol yn yr awdurdod.

## Rhan 3

Mae trefniadau llywodraethu ariannol yn gadarn ar y cyfan, ond mae ymgysylltiad ag Aelodau a chraffu ar gynlluniau arbedion yn amrywio ac nid yw perfformiad yn cael ei herio'n gyson



- 3.1 Rydym yn canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu ariannol ac atebolrwydd awdurdodau lleol yn adran hon yr adroddiad. Yn ein hadroddiad ym mis Ebrill 2015, daethpwyd i'r casgliad, er bod trefniadau llywodraethu ariannol yn gymharol gadarn, bod y wybodaeth am ansawdd perfformiad a chostau sy'n cael ei defnyddio a lefel y craffu a'r her yn awdurdodau lleol Cymru yn amrywio'n sylweddol, sy'n gallu tanseilio effeithiolrwydd y broses o wneud penderfyniadau. Ar gyfer eleni, rydym wedi dod i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu ariannol yn gadarn ar y cyfan, ond bod ymgysylltiad ag Aelodau a chraffu ar gynlluniau arbedion yn amrywio ac nad yw perfformiad yn cael ei herio'n gyson.
- 3.2 Mae **Arddangosyn 5** yn crynhoi ein hasesiad o ba mor effeithiol yw trefniadau llywodraethu ariannol awdurdodau yn erbyn ein nodweddion allweddol. Daethpwyd i'r casgliad bod awdurdodau'n perfformio'n well o ran llywodraethu ariannol na mewn meysydd eraill a ystyriwyd yn ein hadolygiad, er bod gwendidau'n parhau o ran goruchwyllo'r ddarpariaeth o gynlluniau arbedion.

Arddangosyn 5 – Nodweddion trefniadau llywodraethu ariannol effeithiol a'n gwerthusiad o berfformiad presennol

Canfyddiadau	Nodweddion
<p>Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau drefniadau sy'n adlewyrchu'r nodweddion hyn</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r tîm arweinyddiaeth yn deall yn eglur yr heriau a'r risgiau rheoli ariannol sylweddol sy'n newid yn gyflym sy'n wynebu'r sefydliad ac yn cymryd camau priodol i sicrhau sefyllfa ariannol sefydlog.</li> <li>Mae'r prif swyddog ariannol yn aelod allweddol o'r tîm arweinyddiaeth ac yn cymryd rhan ymarferol ym mhob penderfyniad busnes, ac yn hyrwyddo a darparu rheolaeth ariannol dda.</li> <li>Mae'r tîm arweinyddiaeth yn ystyried y sgiliau ariannol sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol haenau o reolwyr a staff drwy'r sefydliad cyfan ac yn mynd ati'n ymarferol i ddatblygu llythrennedd a sgiliau ariannol.</li> <li>Mae'r tîm arweinyddiaeth yn meithrin amgylchedd lle ceir dealltwriaeth dda o dybiaethau a pherfformiad ariannol ac y mae'r rhain yn cael eu herio fel mater o drefn, a diwylliant o dryloywder ynghylch y sefyllfa ariannol.</li> <li>Ceir pwyllgor archwilio gwrthrychol, gwybodus ac effeithiol sy'n cynnig her effeithiol ar draws y cyngor a sicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer rheoli risg, cynnal rheolaeth fewnol effeithiol, ac adrodd ar berfformiad ariannol a pherfformiad arall.</li> <li>Rhoddir sylw effeithiol a phrydlon i argymhellion archwiliadau mewnol ac allanol.</li> </ul>
<p>Mae angen i nifer o awdurdodau wella eu trefniadau yn rhai o'r meysydd hyn</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r tîm arweinyddiaeth yn cynnig prosesau craffu a herio adeiladol o ran materion ariannol i sicrhau bod trefniadau'n parhau i fod yn gadarn ac yn addas i'r diben.</li> <li>Ceir adrodd rheolaidd a thryloyw i Aelodau. Mae'r adroddiadau'n cynnwys manylion cynllunio gweithredol a dadansoddiad o amrywiadau.</li> <li>Ceir ymgysylltiad effeithiol â rhanddeiliaid ar faterion yn ymwneud â'r gyllideb, gan gynnwys ymgynghoriadau cyhoeddus.</li> </ul>
<p>Mae gan lawer o awdurdodau wendidau yn y trefniadau hyn</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae aelodau'n craffu ar berfformiad ariannol ac yn ei herio'n effeithiol, gan ddwyn swyddogion i gyfrif.</li> </ul>

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Adroddiad Cydnerthedd Ariannol, Tachwedd 2015 i Ebrill 2016.

## Mae ansawdd adroddiadau rheolaeth ariannol wedi gwella ond nid oes digon o fanylion mewn adroddiadau i aelodau ar arbedion unigol yn aml

- 3.3 Nododd ein hadolygiad yn 2014-15 bod tua hanner yr awdurdodau lleol yn wynebu rhywfaint o risg mewn un neu fwy o feysydd llywodraethu allweddol. Mae ein hadolygiad yn 2015-16 yn dangos gwelliant ac mae gan fwy na dwy ran o dair o awdurdodau lleol Cymru lai o wendidau mewn meysydd allweddol erbyn hyn.
- 3.4 Canfu ein hadolygiad bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gwneud gwelliannau i'w fframweithiau adrodd presennol ar gyfer adrodd mewnol gyda mwy o bwyslais ar hybu gwelliant parhaus ac atebolrwydd. Mae enghreifftiau o welliannau a nodwyd yn cynnwys:
- a cynnwys targedau arbedion yng ngwerthusiadau perfformiad rheolwyr;
  - b swyddogion Adran 151 yn cyfarfod gyda Chyfarwyddwyr a Phenaeithaid Gwasanaethau fel mater o drefn i drafod perfformiad o ran cyllideb a chynlluniau arbedion; a
  - c defnydd o adroddiadau cyllideb 'Hotspot' i amlygu materion penodol.
- 3.5 Fodd bynnag, nid yw gwelliannau o ran adrodd i aelodau mor gadarnhaol. Mae un maes lle ceir gwendid yn ymwneud ag adrodd ar gynnydd yn erbyn cynlluniau arbedion, fel y nodwyd yn ein hadolygiad yn 2014-15. Dyma'r prif wendidau:
- a mae rhai awdurdodau lleol yn methu â sicrhau bod darpariaeth a chynnydd cynlluniau arbedion yn cael eu dadansoddi ar wahân ac yn cael eu hadrodd i aelodau fel mater o drefn yn rhan o drefniadau monitro ariannol cyffredinol y Cyngor;
  - b mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyfyngu adroddiadau ar gynnydd cynlluniau arbedion i'r flwyddyn ariannol bresennol;
  - c ceir diffyg tryloywder yn y ffordd y dangosir bod cynlluniau arbedion wedi cael eu darparu, er enghraifft, i ba raddau y mae arbedion a gynlluniwyd wedi cael eu disodli neu eu cyflawni o ffynonellau ariannu amgen; ac
  - ch nid yw rhai awdurdodau lleol yn adrodd gwybodaeth am berfformiad ariannol a gwasanaethau gyda'i gilydd.

- 3.6 Rydym o'r farn ei fod yn arfer da i awdurdodau lleol adrodd ar arbedion unigol yn rheolaidd i nodi gorgyflawniad a thangyflawniad ac i sicrhau y cymerir camau priodol a phrydlon i ddarparu cynlluniau arbedion a gytunwyd. Os nad yw awdurdodau lleol yn monitro meysydd arbedion penodol, caiff eu gallu i werthuso a chraffu ar gynlluniau arbedion ei beryglu. Rydym hefyd o'r farn ei fod yn arfer da adrodd ar berfformiad ariannol a gwasanaethau gyda'i gilydd gan ei fod yn cynnig golwg gyfannol ar wasanaethau ac yn ystyried effaith materion ariannol ar wasanaethau ac i'r gwrthwyneb. Gan fod rhaid i awdurdodau lleol bennu targedau mwy anodd a heriol, mae'n gynyddol bwysig bod adroddiadau integredig yn cael eu llunio i alluogi monitro a chraffu effeithiol ar yr effeithiau ariannol ar berfformiad gwasanaethau.
- 3.7 Yn ein hadolygiad yn 2014-15, adroddwyd gennym fod achosion mewn rhai awdurdodau lleol lle'r oedd aelodau wedi bod yn amharod neu'n araf i sylweddoli'r angen am ragolwg mwy radical o ran cynaliadwyedd gwasanaethau. Roedd yr awdurdodau lleol hyn yn dal i dueddu i ganolbwyntio ar leihau swyddogaethau swyddfa gefn neu ddod o hyd i arbedion o fath mwy tameidiog traddodiadol i gyflawni'r arbedion gofynnol. Yn ein hadolygiad yn 2015-16, nodwyd cynnydd amlwg i ymwybyddiaeth ariannol gennym ar draws nifer o awdurdodau lleol wrth i aelodau a swyddogion weithio gyda'i gilydd i nodi ffyrdd o ail-lunio a darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

## **Nid yw'r trefniadau ar gyfer herio a chraffu ar berfformiad ariannol gan aelodau yn ddigon cadarn ledled Cymru**

- 3.8 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, caiff y rhai sy'n gyfrifol am reoli perfformiad ariannol eu dwyn i gyfrif ar lefel unigol ac adrannol gan y tîm arweinyddiaeth a swyddogion Adran 151. Fodd bynnag, canfuwyd gennym hefyd bod rhai awdurdodau lleol yn dal i orwario a thanwario i raddau mwy na'r disgwyl ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n awgrymu bod gwendidau o ran monitro perfformiad ariannol a dwyn deiliaid cyllidebau i gyfrif.
- 3.9 Nododd ein hadolygiad bod nifer o awdurdodau lleol wedi cryfhau eu trefniadau ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol a bod ganddynt fyrddau cyllideb neu rywbeth cyfatebol ar waith i fonitro ac olrhain perfformiad ariannol. Mae'r byrddau mwy soffistigedig yn adolygu perfformiad o ran cyllideb yn ystod y flwyddyn, yn olrhain cynnydd ar y ddarpariaeth o gynigion ar gyfer arbedion a nodwyd, yn ystyried perfformiad gwasanaethau ac yn archwilio risgiau ariannol. Maent hefyd yn ystyried cynlluniau lliniaru. Mae aelodaeth y byrddau rhaglen hyn yn amrywio. Fe'u cadeirir gan y prif weithredwr fel rheol, ac maent yn cynnwys cyfarwyddwyr, penaethiaid gwasanaethau, y swyddog Adran 151 ac mewn rhai achosion, aelodau fel Arweinydd a deiliaid portffolios y cabinet.

- 3.10 Mae rhai awdurdodau lleol hefyd wedi sefydlu byrddau rheoli newid neu weddnewidiol ar wahân i yrru, datblygu a monitro cynlluniau gweithredu sy'n ofynnol i gyflawni arbedion targed sy'n ofynnol yn y tymor canolig i'r tymor hwy. Mae'r byrddau hyn fel rheol yn cynnwys cymysgedd o'r tîm arweinyddiaeth, aelodau cabinet a swyddogion cymorth prosiect.
- 3.11 Mae effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer herio a chraffu ar berfformiad ariannol gan aelodau yn gymysg. Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyflwyno adroddiadau monitro ariannol tri misol neu fisol i'r cabinet a phwyllgorau craffu, nid yw rhai awdurdodau lleol yn cyflwyno adroddiadau monitro ariannol i bwyllgorau craffu na'r cabinet yn rheolaidd. Mae adroddiadau monitro ariannol yn wael mewn rhai awdurdodau lleol ac nid ydynt yn cynnwys digon o fanylion i alluogi aelodau i herio perfformiad ariannol yn adeiladol ac yn effeithiol. Rydym o'r farn bod y rhain yn wendidau mawr y mae angen i awdurdodau lleol roi sylw iddynt er mwyn galluogi aelodau i ddwyn swyddogion i gyfrif yn effeithiol.



## Rhan 4

Er bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu systemau i gynnig trosolwg o berfformiad a gwariant, nid yw'r rhain yn rhoi sicrwydd priodol ynghylch cynaliadwyedd gwasanaethau bob amser



- 4.1 Rydym yn disgrifio yn y rhan hon sut y mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau ei hun bod awdurdodau lleol yn dal i fod yn ddidyled ac yn helpu i atal methiant ariannol. Rydym yn asesu sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r peryglon o fethiant ariannol ac yn gwerthuso dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o effaith llai o gyllid ar wasanaethau a'r perygl o fethiannau mewn gwasanaethau.

## Byddai sicrwydd tymor hwy wrth bennu cyllidebau awdurdodau lleol yn gwella cynllunio ariannol tymor canolig ac yn cynorthwyo gweddnewid lleol yn well

- 4.2 Mae'r rhan fwyaf o bolisiau a swyddogaethau sy'n ymwneud â llywodraeth leol, o addysg i gynllunio, neu wasanaethau cymdeithasol i dai, wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r blaenoriaethau cenedlaethol, y cyd-destun strategol a'r lefel gyffredinol o gyllid ar gyfer gwasanaethau. Cyfrifoldeb y 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedyn yw darparu'r gwasanaethau hyn ar lefel leol o fewn y cyd-destun cenedlaethol. Caiff tua un rhan o dair o gyllideb Llywodraeth Cymru ei gwario drwy'r awdurdodau lleol, gan adlewyrchu pwysigrwydd gwasanaethau lleol.
- 4.3 Mae Llywodraeth Cymru, trwy Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru<sup>9</sup>, wedi sefydlu dull cymorth allweddol i ddeall y pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth gytuno ar y setliad cyllideb. Mae'r Grŵp yn darparu'r dull ffurfiol i Lywodraeth Cymru drafod materion cyllid a neilltuwyd i lywodraeth leol gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol enwebedig. Mae'r Is-grŵp Cyllid yn cyflawni swyddogaeth gynghorol ac ymgynghorol yn hytrach nag un gwneud penderfyniadau. Mae Cylch Gorchwyl<sup>10</sup> y Grŵp yn nodi mai ei gylch gwaith yw canolbwyntio ar agweddau ar gyllid llywodraeth leol, a allai elwa o ystyriaeth fwy manwl. Mae'r Grŵp yn ystyried materion perthnasol yn ymwneud â'r cyllid refeniw a chyfalaf er mwyn cynghori'r Cyngor Partneriaeth ar drefniadau ariannol allweddol o ran cyllid llywodraeth leol.
- 4.4 Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ei chyllideb yn flynyddol ac yn darparu setliadau dangosol amlflwydd ar ei lefelau tebygol o wariant. Fodd bynnag, oherwydd amseriad etholiad cyffredinol y DU ym mis Mai 2015, ac ansicrwydd ynghylch y setliad ariannol ar gyfer gwario datganoledig, pennodd Llywodraeth Cymru gyllidebau blynyddol ar gyfer 2014-15 a 2015-16 yn unig (er ei bod wedi darparu cyllidebau amlflwydd dangosol yn y gorffennol). Serch hynny, mae pennu cyllideb flynyddol, ynghyd â rhai newidiadau hwyr i setliadau cyllideb a gostyngiadau i gyllid grant yn ystod y flwyddyn, wedi effeithio ar allu awdurdodau lleol i gynllunio'n effeithiol a chytuno ar eu cyllidebau eu hunain.

<sup>9</sup> Mae Cyngor Partneriaeth Cymru'n darparu atebolrwydd ac arweinyddiaeth wleidyddol ar gyfer diwygio a chydweithrediad gwasanaethau cyhoeddus, ac yn rheoli cyflymder gwelliant gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ei gyfrifoldebau allweddol yw annog deialog rhwng Gweinidogion Cymru a llywodraeth leol ar faterion sy'n effeithio ar lywodraeth leol, a darparu atebolrwydd gwleidyddol ar y cyd ar gyfer camau i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus.

<sup>10</sup> Cyngor Partneriaeth Cymru: Is-grŵp Cyllid (2013), **Papur Rhif 01, Cylch Gorchwyl**

4.5 Mae pennu cyllideb flynyddol a newidiadau hwyr i'r ffigurau dangosol yn feirniadaeth gyson y mae awdurdodau lleol wedi ei gwneud o Lywodraeth Cymru ac maent o'r farn bod hwn yn rhwystr allweddol sy'n atal awdurdodau rhag gallu datblygu canolbwynt mwy hirdymor ar gynllunio cyllidebau a chyflawni gwaith gweddnewidiol. Fodd bynnag, er ei bod yn eglur bod newidiadau hwyr i gyllidebau wedi achosi problemau gwirioneddol i awdurdodau wrth orffen cynlluniau gwario, ceir dealltwriaeth dda o'r cyfeiriad teithio o ran ariannu gwasanaethau lleol yn ystod y cyfnod presennol o gynt cyllidol a dylai awdurdodau ddal i allu cynllunio effaith debygol toriadau i gyllid. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gynyddol eglur am ei blaenoriaethau. Hefyd, cyrifoldeb pob awdurdod lleol yw pennu ei gyllideb yn y pen draw, a phenderfynu sut a ble y mae'n dymuno blaenoriaethu gwariant gan gymryd ei holl ffynonellau cyllid i ystyriaeth.

## Nid oes dealltwriaeth lawn o effaith lleihad mewn cyllid ar wasanaethau a dinasyddion oherwydd cyfyngiadau o ran y defnydd o ddata a phwyslais gwerthusiadau

- 4.6 Gall weithiau fod yn angenrheidiol i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth, cyfeiriadau neu ymyriadau ffurfiol i geisio cyflawni gwelliannau. Dewis olaf yw ymyrraeth fel rheol, neu mae ar gyfer argyfyngau'n unig. Er mwyn cynorthwyo'r broses hon, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Protocol Cymorth ac Ymyrryd<sup>11</sup>. Mae'r protocol yn nodi'r amgylchiadau lle gellir cynnig cymorth, neu gyflawni ymyrraeth gan y Llywodraeth o ran awdurdodau sy'n cael problemau penodol yn ymwneud â llywodraethu neu berfformiad.
- 4.7 Nod cymorth ac ymyrryd yw nodi a datrys gwendidau llywodraethu neu ddarparu mewn awdurdod. Mae'r Protocol yn diffinio'r gwahaniaeth ar y sail bod cymorth yn cael ei ddarparu trwy gytundeb, ac y cedwir ymreolaeth leol lawn. Mae ymyrryd yn golygu bod Gweinidogion yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod weithredu mewn rhyw ffordd, gan osod cyfyngiadau ar sut y mae'n arfer ei swyddogaethau, neu gael gwared ar y swyddogaethau hynny'n gyfan gwbl mewn achosion eithafol, a'u trosglwyddo i sefydliad arall neu i gomisiynwyr a benodir at y diben hwnnw. Mae cymorth ac ymyrryd yn berthnasol i amgylchiadau lle mae awdurdod lleol yn methu'n gyson neu dro ar ôl tro (am ba bynnag reswm) i gyflawni rhai o'i ddyletswyddau cyfreithiol ehangach penodol yn effeithiol – neu ei fod mewn perygl eglur o wneud hynny.
- 4.8 Mae nifer o awdurdodau lleol wedi bod yn destun cymorth ac ymyrryd yn y blynyddoedd diwethaf, yn canolbwyntio'n bennaf ar fethiannau corfforaethol neu danberfformiad mewn gwasanaethau addysg. Mae llawer o'r rhain wedi elwa o ymyriadau wrth i risgiau gael sylw a safonau wella. Fodd bynnag, nodwyd rhai cyfyngiadau gennym yn y system drosolwg hon.

11 Protocol Cymorth ac Ymyrryd Llywodraeth Leol

- 4.9 Nododd awdurdodau nad yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i ddeall maint y pwysau ariannol yn holl wasanaethau awdurdodau lleol. Mae'r trefniadau cymorth ac ymyrryd presennol yn canolbwyntio ar yr awdurdod a'i drefniadau corfforaethol, ac nid ydynt yn nodi pwysau yn holl wasanaethau'r awdurdod a pha un a yw'r gwasanaethau hyn yn gynaliadwy neu'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Mae hyn yn creu'r perygl efallai na fydd Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o fethiannau posibl mewn gwasanaethau statudol a allai arwain at gostau sylweddol i bwrs y wlad.
- 4.10 Er enghraifft, nid yw'r Is-grŵp Cyllid yn ystyried materion yn ymwneud ag ariannu gwasanaethau neu swyddogaethau penodol ac eithrio pan fo'r rhain o bwysigrwydd cenedlaethol a/neu eu bod yn cael effaith uniongyrchol a pherthnasol ar y trefniadau ariannol cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Y disgwyliad yw y dylai materion yn ymwneud â gwasanaethau penodol gael eu codi'n uniongyrchol gyda'r Gweinidog(ion) portffolio perthnasol sy'n gyfrifol am y materion hyn.
- 4.11 Cydnabuwyd gan yr awdurdodau fod Llywodraeth Cymru wedi ymyrryd ym maes addysg ac ym maes gwasanaethau cymdeithasol, ond o ystyried mai gofal cymdeithasol ac addysg yw'r meysydd gwasanaeth y rhoddwyd mwy o amddiffyniad iddynt mewn setliadau cyllideb hefyd, mae'n debygol nad yw'r rhain o dan yr un pwysau ag eraill. Nid yw absenoldeb methiant ym maes gofal cymdeithasol i oedolion yn fesuriad da na phriodol o gydnerthedd ariannol awdurdod lleol felly. Yn wir, ceir potensial i ansawdd gwasanaethau ostwng yn sylweddol mewn llawer o wasanaethau statudol a dewisol awdurdodau lleol cyn iddo ddod yn amlwg, yn enwedig o ystyried y risgiau yr ydym wedi eu hamlygu yn **Rhan 1** yr adroddiad hwn ar ansawdd a chadernid gwybodaeth ariannol mewn gwasanaethau.
- 4.12 Er enghraifft, mae **Arddangosyn 6** yn dangos y newid i gyllidebau ar gyfer gwasanaethau awdurdod lleol craidd rhwng 2008-09 a 2014-15. Mae hyn yn dangos bod cyllidebau addysg a gwasanaethau cymdeithasol wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn, o 2.3 y cant a 18 y cant yn eu trefn - tra bu gostyngiadau o rhwng 3.7 y cant a 24.4 y cant yng ngwasanaethau eraill cynghorau.

Arddangosyn 6 – Gwariant Alldro Refeniw Gros fesul meysydd gwasanaeth awdurdodau lleol yng Nghymru o 2009-10 i 2014-15

Maes Gwasanaeth	2009-10 £'000	2010-11 £'000	2011-12 £'000	2012-13 £'000	2013-14 £'000	2014-15 £'000	% Newid
Addysg	2,550,437	2,584,331	2,590,523	2,630,360	2,616,865	2,610,336	2.3
Gwasanaethau cymdeithasol	1,418,044	1,1461,078	1,486,524.091	1,536,238	1,640,010	1,673,329	18
Tai cronfa gyffredinol a budd-dal tai	985,254	999,461	1,058,643	1,109,978	1,149,553	1,151,088	16.8
Gwasanaethau amgylcheddol lleol	433,521	438,504	433,062	446,454	439,689	417,581	-3.7
Ffyrdd a thrafnidiaeth	325,336	330,697	317,902	314,686	306,751	278,887	-14.3
Llyfrgelloedd, diwylliant, treftadaeth, chwaraeon a hamdden	296,014	288,203	284,186	283,015	269,717	252,720	-14.6
Cynllunio a datblygu economaidd	152,367	159,004	147,897	132,313	138,733	115,133	-24.4
Budd-dal treth gyngor a gweinyddu	32,363	31,281	28,939	29,588	35,583	36,083	11.5
Gwariant refeniw arall	543,029	567,926	624,825	670,827	664,158	671,056	23.6

Ffynhonnell: LGFS0023, StatsCymru, Llywodraeth Cymru, Hydref 2015 StatsCymru, **Gwariant alldro refeniw, fesul gwasanaeth**

- 4.13 Nododd ein hadroddiad diweddar ar ymateb gwasanaethau cyhoeddus datganoledig i'r heriau ariannol y maent wedi bod yn eu hwynebu a'u cynlluniau i wynebu pwysau yn y dyfodol bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i ddeall effaith penderfyniadau cyllideb ar wasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth, yn enwedig grwpiau agored i niwed<sup>13</sup>. Mae dull Llywodraeth Cymru o gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei fireinio yn seiliedig ar adolygiad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'r asesiadau'n cydnabod y gallai effeithiau o'r fath effeithio ar rai grwpiau â nodweddion gwarchoddedig (menywod a phobl dduon/lleiafrifoedd ethnig) fwy nag eraill. Fodd bynnag, daethpwyd i'r casgliad y gallai'r asesiadau effaith hyn fod wedi bod yn fwy eglur ynghylch y risgiau i grwpiau gwarchoddedig o ystyried y tebygolrwydd y byddai toriadau i gyllid llywodraeth leol yn digwydd mewn gwasanaethau dewisol.
- 4.14 Mae Llywodraeth Cymru'n nodi absenoldeb cymharol safbwyntiau cymwys ar gyfrifon awdurdodau lleol o archwiliadau allanol fel un ffynhonnell o dystiolaeth bod y sector yn ymdopi'n dda o dan bwysau ariannol. Cynorthwyr hyn gan y ffaith na all awdurdodau lleol gynnal diffygion a'i bod yn ofynnol iddynt bennu a gweithredu cyllidebau cytbwys. Fodd bynnag, nid yw hyn ar ei ben ei hun o reidrwydd yn cynnig gwybodaeth am gynaliadwyedd ariannol awdurdod, a gallai cynnig darlun camarweiniol os caiff ei ddefnyddio at y diben hwn. Er y bydd archwiliadau allanol yn cynnig cadarnhad allanol o gyfrifon, nid yw'r gwaith hwn yn ystyried cynaliadwyedd ariannol gwasanaethau awdurdodau lleol.
- 4.15 Yn y pen draw, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am reoli eu perfformiad eu hunain ac mae Llywodraeth Cymru'n dibynnu ar system atebolrwydd llywodraeth leol yn bennaf ar gyfer sicrhau na fydd lleihau cyllid yn arwain at fethiant ariannol neu mewn gwasanaethau. Yn **Adran 3** uchod, rydym wedi amlygu pryderon ynghylch effeithiolrwydd trefniadau craffu a throsolwg aelodau ar berfformiad. O ystyried y gwendidau hyn, ni all Llywodraeth Cymru ddibynnu ar drefniadau cynghorau ac mae angen iddi ddeall cynaliadwyedd gwasanaethau ar draws holl wasanaethau cynghorau ac nid gofal cymdeithasol ac addysg yn unig. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw Llywodraeth Cymru am gyflawni ei swyddogaeth yn effeithiol fel prif ariannwr llawer o wasanaethau awdurdodau lleol a'r corff polisi a deddfwriaethol sy'n atebol am lawer o gyfrifoldebau statudol ac eraill llywodraeth leol.

<sup>13</sup> Swyddfa Archwilio Cymru, **Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2015**, Rhagfyr 2015.

Atodiadau

Atodiad 1 – Dull yr astudiaeth



# Atodiad 1 – Dull yr astudiaeth

## Adolygiad o lenyddiaeth, data ac ystadegau

Rydym wedi adolygu amrywiaeth eang o ddogfennau a chyfryngau, gan gynnwys:

- Dogfennau polisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol;
- adroddiadau a dogfennau briffio gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn Lloegr; a
- gwaith ymchwil a chanllawiau perthnasol gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

## Gwaith maes awdurdodau lleol

Crynodeb o'r adroddiadau lleol yw'r adroddiad hwn ac nid oedd yn gofyn am unrhyw waith maes ychwanegol. Ymwelwyd â phob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer ein hadroddiadau lleol, rhwng mis Mehefin 2015 a mis Rhagfyr 2015. Yn ystod yr ymweliadau, cyfwelwyd amrywiaeth o staff awdurdodau lleol ac aelodau etholedig a lluniwyd adroddiadau lleol ar gyfer pob cyngor yn crynhoi ein canfyddiadau allweddol ar gydnherthedd ariannol pob awdurdod.





Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)